**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION YR HINSAWDD - CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd ddydd Mercher, 2 Mawrth 2022 am 11am.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd S Belzak Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd E Webster

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr Anthony Roberts, Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon
Mr Richard Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr Dave Powell, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor
Ms Elizabeth Dean, Swyddog Cynllunio Materion Amgylcheddol
Mr Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Ms Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr Marc Crumbie, Pennaeth Caffael

**Cynrychiolwyr Allanol a wahoddwyd i'r Grŵp Llywio:-**

Mr I Thomas - Croeso i'n Coedwig

**18 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis.

**19 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**20 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021 yn rhai cywir.

**21 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ACHLYSUR SERO NET I STAFF RHCT - 17 IONAWR 2022**

Rhoddodd y Rheolwr Cyflawniad ddiweddariad ar lafar i Aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â'r achlysur sero net i staff Rhondda Cynon Taf, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022. Roedd y Rheolwr Cyflawniad wedi cydnabod y gwaith sydd wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd blaenorol o ran ymgysylltu â thrigolion a'r gymuned; cydnabuwyd bod angen nodi, trafod a chasglu barn y staff mewn perthynas â sut i fynd i'r afael â newid

yn yr hinsawdd a lleihau Ôl Troed Carbon y Cyngor. Rhoddodd y Rheolwr Cyflawniad wybod i'r Aelodau y bydd cwestiynau'n cael eu cynnwys yn yr arolygon i staff a rheolwyr yn rhan o drafodaethau 'Dewch i siarad am Newid yn yr Hinsawdd'.

Cafodd Aelodau wybod bod modd canolbwyntio ar ymgysylltu â staff erbyn hyn, gan ddarparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan a chyfrannu at waith sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau Carbon, a hynny'n dilyn dwy flynedd o ganolbwyntio ar faterion Covid-19. Roedd y Rheolwr Cyflawniad wedi cydnabod pwysigrwydd staff o ran y gwaith sy'n cael ei gyflawni nawr ac yn y dyfodol, yn enwedig gan fod tua 80% o staff hefyd yn drigolion RhCT.

Cafodd Aelodau wybod bod achlysur Sero Net i Staff wedi'i drefnu gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd newydd a gwahanol er mwyn rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r Cyngor a chychwyn trafodaethau â staff. Cafodd yr achlysur ei gynnal ar-lein ac roedd croeso i holl staff o bob gradd a gwasanaeth; cynhaliwyd arolygon byr er mwyn sicrhau bod gan staff nad oedd modd iddyn nhw fynychu'r achlysur gyfle i gyfrannu hefyd.

Rhoddodd y Rheolwr Cyflawniad wybod i Aelodau nad oedd y garfan yn gwybod am y galw/nifer y bobl a fyddai'n dod i'r sesiwn wrth ei sefydlu. Serch hynny, mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol gan y daeth dros 70 o staff i'r achlysur rhithwir. Yn ystod yr achlysur, cafwyd cyflwyniadau gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Rhys Lewis, Chris Bradshaw a David Powell. Yn dilyn y cyflwyniadau, cafodd y cyfranogwyr eu rhannu'n grwpiau trafod lle gofynnwyd iddyn nhw rannu'u syniadau ynghylch sut gallai'r Cyngor leihau allyriadau carbon ac allyriadau eraill yn ei wasanaethau a'i weithrediadau ac hefyd eu syniadau ynghylch sut i gynnwys ac ymgysylltu â'r holl staff i helpu'r Cyngor i gyflawni'i dargedau lleihau allyriadau carbon.
Cadarnhaodd y Rheolwr Cyflawniad fod y grŵp wedi cyfrannu mewn modd brwdfrydig yn ystod y trafodaethau; cafodd gwybodaeth ddefnyddiol ei chasglu a bydd yr wybodaeth yma'n cael ei hystyried a'i defnyddio ar y cyd ag adborth sydd wedi'i gasglu o ffrydiau ymgysylltu eraill.

Roedd y cyfraniadau yma gan staff wedi cadarnhau'r gwerth sy'n gysylltiedig â darparu rhagor o gyfleoedd er mwyn i staff gyfrannu a chymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch Newid yn yr Hinsawdd. Cafodd y materion canlynol eu nodi yn dilyn trafodaethau:

- Mae staff eisiau rhagor o wybodaeth ynghylch beth y mae'r Cyngor yn ei wneud ynghylch Newid yn yr Hinsawdd a beth mae modd i staff ei wneud.
- Mae ffocws cynyddol ar leihau allyriadau carbon ar draws y gwasanaethau.
- Roedd yna gydnabyddiaeth gynyddol mai dull gwyrdd fyddai'r dull sy'n cael ei weithredu gan amlaf, ac;
- Roedd yna gydnabyddiaeth gynyddol bod gan bawb ran i'w chwarae.

Rhoddodd y Rheolwr Cyflawniad wybod i'r Aelodau y bydd y strategaeth Newid yn yr Hinsawdd newydd yn llywio swm mawr o'r gwaith fydd yn cael ei drafod ac yn cael ei lansio gan y weinyddiaeth newydd. Fodd bynnag, mae gwaith paratoi wedi dechrau yn y cyfamser ac mae hyn yn cynnwys cyflwyno sesiynau Codi Ymwybyddiaeth ar gyfer staff ochr yn ochr â lansio'r strategaeth newydd. Cadarnhawyd bod yr achlysur Sero Net i Staff nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mai 2022. Mae sianel 'Man Gwyrdd' (Green Space) wedi cael ei sefydlu ar Teams.

Mae modd i staff ymuno â'r sianel yma i rannu syniadau, cyrchu gwybodaeth ynghylch beth mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau bod gan y Cyngor fynediad uniongyrchol i banel staff er mwyn ymgysylltu ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

I gloi, cadarnhaodd y Rheolwr Cyflawniad y bydd cynllun ymgysylltu a chyfranogi newydd yn golygu bod modd parhau i gynnal trafodaethau  â thrigolion, staff neu randdeiliaid eraill ynghylch yr Hinsawdd.

Roedd y Rheolwr Cyflawniad wedi cydnabod bod rhagor o waith i'w neud o ran sicrhau bod staff, yn enwedig y rhai sydd heb fynediad i e-bost, yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Rhoddodd y Rheolwr Cyflawniad wybod i'r Aelodau bod y gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn wedi dangos bod staff yn awyddus i gymryd rhan a chyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyflawniad am y diweddariad ac esboniodd ei fod e'n falch o sut mae'r staff wedi ymgysylltu â'r prosiect. Roedd y Cadeirydd yn falch o weld y 'Man Gwyrdd' ar Teams, ac roedd y Cadeirydd wedi cydnabod gwerth y fforwm gan ei fod yn annog staff i rannu'u barn a'u syniadau.

Ategodd un Aelod ganmoliaeth y Cadeirydd gan gydnabod pwysigrwydd cynnwys staff yn rhan o'r broses oherwydd yr hyn y mae modd iddyn nhw ei wneud o fewn y Cyngor o ran helpu a chefnogi'r gwaith yma.

Cododd un Aelod ymholiad ynghylch dyrannu cyllid i'r fforwm er mwyn rhoi'r syniadau arfaethedig yma ar waith. Dywedodd y Prif Weithredwr y gellir dyrannu cyllid gan ddibynnu ar ansawdd y syniad a gynigir.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Nodi'r diweddariad llafar ynghylch yr Achlysur Sero Net i Staff.

**22 ADRODDIAD DIWEDDARU AR EIN HYMATEB CAFFAEL O RAN NEWID YN YR HINSAWDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Caffael adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae'r Gwasanaeth Caffael yn ei gynnal ar hyn o bryd a hynny i gefnogi nod y Cyngor o gyflawni'i darged Sero Net erbyn 2030.

Cafodd yr Aelodau wybod am Strategaeth Gaffael ar gyfer 2021/24 (drafft) a oedd yn dod â gofynion y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Drafft ynghyd gan nodi tair thema strategol sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020/24. Cadarnhaodd y Pennaeth Caffael mai thema allweddol holl waith y Gwasanaeth Caffael yw cefnogi uchelgeisiau sero net y Cyngor.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad a oedd yn amlygu newidiadau sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â phrosesau a'r ddogfen safonol a hynny i gyflawni uchelgeisiau'r Cyngor o ran Newid yn yr Hinsawdd.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Pennaeth Caffael am yr adroddiad, gan gydnabod yr ystod eang o waith y mae Swyddogion wedi'i wneud ac roedd hi'n dymuno diolch iddyn nhw am eu gwaith caled. Roedd y Cadeirydd yn falch o weld graddedigion yn cael eu cyflwyno i brosiectau arloesol i fynd i'r afael â

Newid yn yr Hinsawdd.

Ategodd Aelod ganmoliaeth y Cadeirydd ac roedd yn falch o weld bod staff yn cyfrannu at brosiectau arloesol ac yn rhannu syniadau.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Cydnabod y newidiadau a roddwyd ar waith gan y Gwasanaeth Caffael a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, i gefnogi uchelgeisiau sero net y Cyngor.

**23 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y PROSIECT FFERM SOLAR ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariadau pellach i'r Aelodau mewn perthynas â datblygu’r prosiect 'Fferm Solar ar Dir' a fydd yn cael ei lleoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Roedd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wedi cydnabod potensial mawr y prosiect yng nghyd-destun cyfleoedd gwrthbwyso carbon yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth gefndir a diweddariadau allweddol mewn perthynas â'r cynigion a fydd yn cyfrannu'n fawr at wrthbwyso ôl troed carbon ac yn cyfrannu at gyflawni targedau Carbon Sero Net y Cyngor.
Esboniodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon fod modd disgrifio'r prosiect fel Fferm Solar 6MW oherwydd cynnyrch cyfunol y ddwy 'elfen allforio' sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Mae'r 'elfen allforio' yn cynnwys Western Power Distribution a threfniadau gwifrau preifat. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau fod trafodaethau ar gyfer y wifren breifat wedi cyrraedd y cam dirprwyo. Mae'r trefniadau yma'n destun trefniant diffyg datguddio y mae'r Cyngor wedi cytuno iddo gyda'r partner posibl.

Aeth y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon ati i hysbysu'r Aelodau bod yna dri opsiwn sy'n gysylltiedig â'r Fferm Solar ac mae'r ffyrdd y mae modd rhoi'r cynigion yma ar waith wedi'u crynhoi isod:

**Opsiwn 1:** adeiladu'r fferm solar annibynnol er mwyn manteisio ar ein cysylltiad diogel â'r grid 5MW. Bydd hyn yn bwydo'n uniongyrchol i'r grid ac yn rhannu'r pŵer sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio'r llwybr yma'n unig.

**Opsiwn 2:** cyfuno'r syniadau a ddisgrifir uchod â system wifrau preifat i bartner lleol, ac allforio i fyd masnach ar ddwy lefel, sef 33kV a 11kV.

**Opsiwn 3:** cyfuno'r ddwy senario uchod gan archwilio cyfleoedd eraill i ddarparu ynni gwyrdd i fentrau masnachol y dyfodol ar ystad ddiwydiannol leol, a hynny am gost isel. Y gobaith yw y bydd y dull yma'n annog defnyddwyr sy'n defnyddio llawer o ynni i adleoli i'r safle, nid yn unig ar gyfer yr ynni gwyrdd ond hefyd o ran potensial y safle. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch creu Safle Gwefru Cerbydau Trydan sylweddol sydd â chyfleusterau storio batris ac wedi'i bweru'n rhannol gan y fferm solar. I ddechrau, bydd y safle yma ar gael i'r Cyngor a fflyd y sector cyhoeddus, ond bydd y safle hefyd ar gael i gerbydau preifat a cherbydau nwyddau trwm.

Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon y bydd y gwaith yn canolbwyntio ar opsiwn 2; fodd bynnag, gellir ystyried opsiwn 3 gan ddibynnu ar yr ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal nes ymlaen yn y cynllun ac os oes parodrwydd i fynd ar ei drywydd o safbwynt corfforaethol.

Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Chaffael y byddai rhoi statws prosiect i'r cynigion a amlinellwyd yn golygu bod modd rhoi'r systemau llywodraethu cymeradwy angenrheidiol ar waith er budd datblygiad parhaus y prosiect. Bydd hefyd yn galluogi'r garfan y mae'r Cyngor wedi'i phenodi i reoli materion wrth symud ymlaen â'r prosiect.

Mynegodd un Aelod bryder ynghylch maint y prosiect Fferm Solar a'i effaith ar gynefinoedd naturiol, llystyfiant ac ôl troed carbon ar y safle. Roedd yr Aelod yn bryderus gan y byddai llawer o ynni ac adnoddau'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r prosiect.
Ategodd un Aelod bryderon tebyg ynghylch effaith ecolegol y prosiect.

Cynghorodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon y bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod cyflwr ecolegol presennol y safle'n cael ei gynnal. O ran yr effaith ar lystyfiant, rhoddodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon sicrwydd i'r Aelodau y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod cyn lleied aflonyddwch â phosibl.
Soniodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau am ymchwiliadau ôl-troed carbon fydd yn cael eu cynnal yn ystod y broses gaffael a bydd ymholiadau perthnasol yn cael eu codi ynghylch beth fydd ôl troed carbon y prosiect. Roedd un Aelod yn deall y pryderon a godwyd ond roedd yn cefnogi'r prosiect oherwydd y manteision ariannol cyffredinol fyddai'n gysylltiedig â'r prosiect yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwyr wrth Aelodau'r Grŵp Llywio y bydd y Fferm Solar yn cael effaith hirdymor gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan y byddai'r ynni a ddarperir o'r Fferm Solar yn cael ei ddefnyddio am dros 20 o flynyddoedd. Roedd un Aelod wedi adleisio sylwadau'r Prif Weithredwr, gan gyfeirio at hirhoedledd y prosiect a chynhyrchu ynni; fodd bynnag gofynnodd yr Aelod am ragor o adroddiadau fyddai'n rhannu gwybodaeth â'r Aelodau ynghylch yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod y broses gynhyrchu ynni'n rhan o'r prosiect Fferm Solar.

Cefnogodd y cynrychiolydd o sefydliad Croeso i'n Coedwig waith datblygu'r prosiect Fferm Solar gan fynd ati i drafod manteision cynhyrchu ynni sy'n eiddo i'r Cyngor ac sydd felly'n cynnig sicrwydd o ran ynni.

**PENDERFYNODD** Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

- Nodi cynnwys yr adroddiad.

- Cytuno y gellir cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet, a hynny er mwyn argymell bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo.

- Derbyn adroddiadau pellach sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn 2022.

## 24 ADRODDIAD DIWEDDARU AR LEIHAU EITEMAU DEFNYDD UNTRO

Cyflwynodd y Pennaeth Caffael yr adroddiad i Aelodau'r Grŵp Llywio a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o eitemau defnydd untro ar draws y Cyngor.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 3 yr adroddiad. Mae'r adran yma'n nodi'r cynnydd effeithiol sydd wedi'i wneud yn yr amgylchedd corfforaethol o ran cael gwared ar eitemau defnydd untro. Mae'r holl eitemau sydd wedi'u nodi yn adran 3.2 bellach wedi'u tynnu o gatalogau'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Caffael wrth yr Aelodau fod rhagor o waith wedi cael ei wneud mewn perthynas ag eitemau defnydd untro eraill, nad ydyn nhw'n blastigion, fel sydd wedi'u nodi yn adran 3.3 o'r adroddiad.

Er bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau nifer yr eitemau defnydd untro, rhoddodd y Pennaeth Caffael wybod i'r Aelodau am yr heriau sy'n cael eu hwynebu wrth roi'r newid yma ar waith yn yr ysgolion, am y rhesymau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Fodd bynnag, dywedodd y Pennaeth Caffael wrth yr Aelodau y bydd camau'n cael eu rhoi ar waith i adolygu'r defnydd o gynnyrch untro mewn ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf fel yr amlygwyd yn adran 3.5 yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Caffael y byddai gwaith adolygu'n cael ei wneud mewn perthynas â'r sectorau glanhau a phorthol, yn ogystal ag adolygu'r sector arlwyo.

I gloi, cyfeiriodd y Pennaeth Caffael yr Aelodau at adran 4 yr adroddiad, gan bwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu agwedd gyfrifol a chynaliadwy tuag at reoli cynhyrchion nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Roedd dwy enghraifft wedi'u cynnwys yn yr adroddiad - Offer TG a Dodrefn Swyddfa, Gosodiadau a Ffitiadau.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Swyddog am yr adroddiad ac roedd yn falch o'r camau a gymerwyd tuag at leihau nifer yr eitemau defnydd untro, yn enwedig o fewn sector yr ysgolion.

Ategodd un Aelod ganmoliaeth y Cadeirydd o ran y gwaith sydd wedi'i wneud i leihau eitemau defnydd untro ac ailddodrefnu ac ailddefnyddio offer TG a dodrefn swyddfa. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd economi gylchol y mae modd ei hailddefnyddio.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau nad oes modd archebu eitemau defnydd untro o systemau archebu ar-lein y Cyngor.

- Cydnabod effaith Covid-19 o ran mynd i’r afael â phlastigion/eitemau untro o fewn y sector ysgolion.

- Nodi'r gwaith sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â chategorïau cyflenwi ehangach lle mae cynnyrch/plastigion untro'n cael eu prynu, gan ganolbwyntio ar gontractau glanhau a gofalwyr y Cyngor.

**25 DERBYN DIWEDDARIAD AR LAFAR GAN GYFARWYDDWR EIDDO'R CYNGOR.**

**Y PROSIECT PLANNU COED**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ddiweddariad ar lafar mewn perthynas â'r Prosiect Plannu Coed. I ddechrau, rhoddodd wybod i'r Aelodau am raglen dreigl flynyddol y Cyngor ar gyfer ailblannu coed sydd wedi'u difrodi neu wedi marw yn lleoliadau Parciau a Chefn Gwlad ledled RhCT. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor fod y garfan wedi gallu plannu teirgwaith y nifer o goed nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Cadarnhaodd fod y garfan wrthi'n plannu 1,200 o goed ledled y tair ardal yn RhCT ar hyn o bryd.

Roedd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor yn falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â phlannu coed yn yr ardal; Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor y bydd y Cyngor yn cydweithio â Chroeso i'n Coedwig er mwyn trafod a rhannu syniadau a dyblu'r ymdrechion gan sicrhau bod y goeden gywir yn cael ei phlannu yn y lleoliad cywir.

Aeth Cynrychiolydd Croeso i'n Coedwig ati i egluro bod y prosiect yn bwysig o ran mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd ac yn nhermau cyfle i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Rhondda Cynon Taf. Rhoddodd drosolwg byr i'r Aelodau o'r tair eitem a drafodwyd mewn perthynas â'r Prosiect Plannu Coed; roedd y rhain yn cynnwys:

1. Plannu Coed mewn Gerddi Preifat
2. Gweithio gyda busnesau lleol i blannu coed mewn mannau i staff, a
3. Plannu coed ar dir gwastraff nas defnyddir.

Adleisiodd cynrychiolydd Croeso i'n Coedwig bwysigrwydd plannu’r goeden gywir yn y lle cywir ac am y rheswm cywir. Aeth ati i esbonio gwerth y prosiect, sy'n ceisio cael effaith hirdymor gadarnhaol er budd pobl a busnesau lleol yn RhCT.

Roedd y Cadeirydd yn falch o weld y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y garfan; nododd ei bod hi'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r gymuned.

Dywedodd un Aelod ei bod hi'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn rhannu'r neges briodol â'r Gymuned a thrigolion, gan ganolbwyntio ar arwyddocâd y plannu'r goeden gywir yn y lle cywir. Hefyd, codwyd ymholiad ynghylch gwywo'r onnen a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar goed ynghyd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer plannu coed newydd yn lle'r coed sydd wedi'u symud.

Soniodd un Aelod wrth y Grŵp Llywio am bwysigrwydd cynnwys y Prosiect Plannu Coed o fewn y Fforwm Mannau Gwyrdd er mwyn annog staff i gyfrannu.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylid darparu diweddariadau pellach i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r Prosiect Plannu Coed er mwyn tynnu sylw at y cynnydd sy'n cael ei wneud. Cadarnhaodd fanylion y cyllid sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd, mae modd defnyddio hyn fel buddsoddiad hirdymor er mwyn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

**Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a Sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.**

Rhoddodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon drosolwg byr i'r Aelodau o'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan. Cafodd yr Aelodau'u hatgoffa o'r gwaith cynharach a gafodd ei gyflawni gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â thrafod datblygu seilwaith i gefnogi cerbydau carbon isel yn RhCT. Roedd hyn wedi arwain at lunio 10 argymhelliad i'w hystyried gan y Cabinet yn 2018. Cafodd yr Aelodau wybod bod yr argymhellion yma wedi arwain at 10 uchelgais, sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth. Cafwyd ymateb da i'r strategaeth yn ôl y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon, a chafodd ymdrechion y staff eu canmol gan y Cynghorwyr.

Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau fod y strategaeth wedi'i chyhoeddi ym mis Ionawr 2022 a'i bod bellach ar gael ar wefan y Cyngor – Mynd i’r afael â Newid yn yr Hinsawdd. Cafodd yr Aelodau wybod bod y cynllun gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu gan garfan fach yn unol â'r cylch gorchwyl a dan oruchwyliaeth y gweithgor. Mae'r cynllun yn cael ei lunio ar hyn o bryd ac yn cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn pennu amcanion a cherrig milltir fydd yn dangos y ffordd ymlaen. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau y byddai'r disgwyliad ar gyfer ail ran y prosiect yn cael ei gytuno'n ffurfiol gan y gweithgor ehangach ym mis Mawrth er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno'r mater i'r Pwyllgor Craffu a derbyn sylwadau gan yr Uwch Garfan Rheoli.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wybod i'r Aelodau am gwmni newydd o'r enw Connected Kerb sydd wedi'i benodi i weithio ar y Mannau Gwefru Cerbydau Trydan gan fod y cyflenwr gwreiddiol wedi'i dynnu o'r Contract gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau fod y cwmni newydd wedi cwrdd â'r Gwasanaethau Rheng Flaen a bod cynlluniau ar waith i barhau i gyflawni cam cyntaf y prosiect a fydd yn darparu dros 30 o fannau gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol leoliadau. Bydd ail gam y prosiect yn darparu dros 30 o fannau gwefru cerbydau trydan.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cynnydd mewn Mannau Gwefru Cerbydau Trydan yn cael ei groesawu gan drigolion a Chynghorwyr. Roedd y Cadeirydd yn falch bod yr wybodaeth wedi'i chynnwys ar y Wefan gan ei bod yn sicrhau bod gan drigolion fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Nodi'r diweddariad llafar

**26 ADRODDIAD DIWEDDARU O RAN DATGANIAD CAEREDIN**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio Materion Amgylcheddol yr adroddiad i'r Aelodau; nod yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am Ddatganiad Caeredin a rôl Awdurdodau Lleol o fewn y fframwaith bioamrywiaeth ôl-2020 byd-eang; Nod hyn yw sicrhau newid trawsnewidiol i fyd natur dros y degawd nesaf.

Hysbyswyd yr Aelodau am Gynhadledd y Partïon (COP15); Cafodd yr Aelodau wybod bod y pandemig wedi gohirio'r fframwaith, fodd bynnag, dylid cynnal

cyfarfod yn y Gwanwyn er mwyn cymeradwyo fframwaith bioamrywiaeth ôl-2020. Y weledigaeth ar gyfer y fframwaith yw byw'n gytûn â byd natur erbyn 2050. Rhannodd y Swyddog Cynllunio Materion Amgylcheddol fanylion yr amcanion sydd ar waith er mwyn diogelu bioamrywiaeth â'r Aelodau; mae cynlluniau gweithredu ar waith ac mae'r rhain yn cynnwys Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Genedlaethol.
Dywedodd y Swyddog Cynllunio Materion Amgylcheddol wrth yr Aelodau y bydd gwaith datblygu'r fframwaith yn cael ei gynnal drwy ddull cyfranogol; cafodd yr Aelodau wybod bod Datganiad Caeredin yn ganlyniad i hynny. I gloi, rhoddodd y Swyddog Cynllunio Materion Amgylcheddol wybod fod yr ALl wedi cael ei annog gan Lywodraeth Cymru i arwyddo a chefnogi gweithrediad y cytundeb rhyngwladol.

Siaradodd Aelod am bwysigrwydd y ddogfen ac arwyddocâd arwyddo'r ddogfen.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Cefnogi arwyddo Datganiad Caeredin

**27 ADRODDIAD CRYNO O'R DEILLIANNAU A GYFLAWNWYD YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF**

Rhannodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Aelodau mewn perthynas â'r deilliannau amgylcheddol ac ynni allweddol a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r gwaith sy'n cael ei gynnal ar brosiectau ynni adnewyddadwy a materion eraill sy'n ymwneud â lleihau allyriadau carbon. Dywedodd wrth yr Aelodau mai nod yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o'r gwaith da sydd wedi'i wneud hyd yma yn ogystal â phrosiectau'r dyfodol.
Siaradodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon am Gynllun Corfforaethol 2020/24 RhCT 'Gwneud Gwahaniaeth'; gan nodi bod y Cyngor wedi cydnabod mai cyflawni ymrwymiadau Newid yn yr Hinsawdd fydd un o'r heriau mwyaf.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad sy'n rhestru llwyddiannau prosiectau'r Cyngor sy'n ymwneud â mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd hyd yma. Roedd rhai enghreifftiau o'r llwyddiannau hyn yn cynnwys lleihau allyriadau carbon 40% drwy fuddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy; mae'r holl oleuadau stryd yn RhCT wedi'u newid i oleuadau LED ac ers 2016 mae hyn wedi arwain at ostyngiad blynyddol o 84% yn y carbon a gofnodwyd yn 2018/19. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau mai Cyngor RhCT yw'r ALl cyntaf i osod Celloedd Tanwydd Hydrogen ac erbyn hyn mae 21 o unedau wedi'u gosod mewn Canolfannau Hamdden, Ysgolion a Swyddfeydd ledled RhCT.
Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon yr Aelodau at adran 6 yr adroddiad a oedd yn tynnu sylw'r Aelodau at brosiectau Cyngor RhCT sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae’r prosiectau’n cynnwys ‘Ffynnon Dwym Ffynnon Taf’, sy’n defnyddio gwres geothermol, buddsoddiad y Cyngor mewn peiriannau ailgylchu wedi'u hawtomeiddio o’r radd flaenaf ar safle Bryn Pica, sydd wedi gwella targedau ailgylchu’r Cyngor, gwaith bioamrywiaeth ar y gweill sy’n archwilio defnyddio coed a mawnogydd fel modd o ddal carbon, yn ogystal â nifer o lwybrau 'Teithio Llesol' sydd wedi'u sefydlu ledled RhCT megis Llwybr Taith Taf, Llwybr Cymunedol Pentre'r Eglwys a Llwybr Cwm Cynon. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau fod y gwaith wedi bod yn canolbwyntio ar wella rhwydweithiau teithio llesol drwy ddatblygu llwybrau newydd a fydd yn gwella cysylltedd ac yn gwasanaethu cyfleusterau

lleol allweddol megis ysgolion, colegau, mannau gwaith a siopau.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 7 yr adroddiad; mae'r adran hon yn amlygu cynlluniau'r Cyngor i ddatgarboneiddio'r Fwrdeistref Sirol drwy gydweithio i ddatblygu systemau gwefru cerbydau trydan a datgarboneiddio fflyd y Cyngor, hyfforddiant i staff a menter mannau gwyrdd. Dywedodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wrth yr Aelodau fod adran 7 yr adroddiad yn cyfeirio at system Llywodraethu Corfforaethol newydd y Cyngor sydd wedi'i sefydlu dan y Grŵp Llywio, fel y dangosir yn atodiad yr adroddiad.

Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, soniodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon am y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud sy'n adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), wrth i brosiectau ddiwallu anghenion presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Er bod sawl llwyddiant wedi bod hyd yn hyn, roedd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wedi cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud.

Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r adroddiad a'r gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud hyd yma. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i weld bod yr hyn sydd wedi'i gyflawni'n cael ei rannu â staff a thrigolion.

Roedd un Aelod wedi adleisio canmoliaeth y Cadeirydd; roedd e'n falch o weld yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod cyfnod byr.

Roedd Aelod wedi canmol y gwaith sydd wedi'i gynnal yn rhan o'r prosiect, fodd bynnag gofynnodd bod rhagor o oleuadau LED yn cael eu gosod yn rhannau o RCT, gan fod y goleuadau sydd wedi'u gosod hyd yn hyn yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol yn hytrach na bod ar hyd a lled ar y sir. Rhannodd y Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon wybodaeth ynghylch cynllun datblygu technoleg LED, gan bwysleisio y bydd goleuadau LED gwell yn cael eu gosod.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'i ddiweddariadau yn rhan o waith parhaus Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd.

- Derbyn adroddiadau pellach sy'n rhannu diweddariadau pellach ynghylch yr hyn sydd wedi'i gyflawni a'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am**

**Y CYNGHORYDD A CRIMMINGS**
**CADEIRYDD.**